Deddf yr Amgylchedd 1995 Rhan IV Adran 83(1)

Cyngor Sir Caerfyrddin
Gorchymyn Ardal Rheoli Ansawdd Aer

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin, gan arfer ei bwerau o dan Adran 83(1) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol.

Gellir dyfynnu/cyfeirio at y Gorchymyn hwn fel Ardal Rheoli Ansawdd Aer Cyngor Sir Caerfyrddin [Llanelli 2016] a ddaw i rym ar 2 Awst 2016

Bydd yr ardal a ddynodir ar y map atodedig o fewn y ffin las yn cael ei dynodi'n ardal rheoli ansawdd aer (yr ardal ddynodedig). Mae'r ardal ddynodedig yn dechrau o'r rhan a adwaenir fel Teras Bassett ar yr A484 o'r gyffordd ar y gorllewin â Heol Waun Eos gan deithio tua'r dwyrain ar hyd Heol y Sandy ac yn cynnwys cylchfan Heol y Sandy, gan barhau i gyfeiriad y dwyrain ar hyd yr A484 Heol Pen-bre cyn troi tua'r gogledd i fyny Heol Newydd hyd at y gylchfan fach yn y Ffwrnes, ac yna'n teithio yn ôl tua'r de ar hyd yr Hen Heol hyd at y gyffordd â Stryd Thomas ar yr A476. Yna mae'r ffin yn mynd tua'r gogledd ddwyrain ar hyd yr A476 drwy Heol Felinfoel a Phanteg, hyd at y gylchfan fach gan ymuno â Rhes y Ffermwyr. Mae'r ffin yn mynd i gyfeiriad y de-orllewin ar hyd yr A476 i lawr Stryd Thomas gan fynd i'r chwith ar hyd yr A484 hyd at y gylchfan a mynd i'r dde gan ddilyn yr A4214 ar hyd Stepney Place. Mae'r ffin yn parhau ar hyd y gyfres o gylchfannau bach gan deithio ar hyd Stryd Robinson Uchaf a Stryd Murray cyn troi i'r chwith ar y gyffordd â Heol yr Orsaf. Mae'r ffin yn parhau ar hyd yr A4214 drwy Stryd yr Eglwys, Stryd y Neuadd, West End hyd at Heol Pen-bre, gan gynnwys cylchfan Heol y Sandy eto cyn mynd yn ôl ar hyd Heol y Sandy i'r gorllewin ac ymlaen i Deras Bassett cyn cwblhau'r ffin ar y gyffordd orllewinol bellaf â Heol Waun Eos.

Mae'r Ardal hon wedi'i dynodi mewn perthynas â thorri amcan nitrogen deuocsid (cymedrig blynyddol) fel y nodwyd yn Rheoliadau Ansawdd Aer (Cymru) 2000.

Bydd y Gorchymyn hwn yn parhau mewn grym hyd nes y mae'n cael ei amrywio neu'i ddirymu gan orchymyn dilynol.

Gosodwyd Sêl Gyffredin Cyngor Sir Caerfyrddin
ar 2 Awst 2016 a'i llofnodi ym mhresenoldeb / ar ran
y Cyngor dan sylw

Linda Rees-Jones

14269

Sir Gâr Carmarthenshire

Llanelli AQMA Boundary Map



0 200 400 600m

Graddfa / Scale 1:15000

Canol y Map / Map Centre [249868,201019.8]

Dyddiad / Date 26/02/2016

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2016. Arolwg Ordnans 100023377

© Crown Copyright and database rights 2016. Ordnance Survey 100023377

LR-J